



## **YR AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL**

Yr Awdurdod sydd â'r awdurdod terfynol a'r hawl i wneud penderfyniadau. Mae gofynion statudol mewn amrywiol ddeddfwriaethau sy'n pennu'n ffurfiol y modd y mae'r Awdurdod yn penderfynu ar faterion megis yr ardoll ac ati. Yr Awdurdod sy'n gyfrifol yn y pen draw am bennu lefel derfynol yr adnoddau sydd ar gael i bob Pwyllgor, ac sy'n gyfrifol am eiddo'r Parc, yr asedau cyfalaf a'r cyfryw bethau, ac am gaffael, aseinio neu waredu'r cyfryw adnoddau. Yr Awdurdod sy'n penderfynu'n derfynol ar faterion corfforaethol megis delwedd, cyfathrebu allanol a chwynion (yn amodol ar waith y Pwyllgor Safonau).

Prif swyddogaethau'r Awdurdod yw:

- Cymeradwyo datblygu fframwaith cynllunio corfforaethol strategol yr Awdurdod drwy Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (bob pum mlynedd), y Cynllun Datblygu Lleol (bob pum mlynedd), a'r Cynllun Adnoddau Corfforaethol (yn flynyddol). Wrth ddatblygu'r fframwaith strategol bydd yr Awdurdod yn derbyn cyngor gan y Grwpiau Cyngori.
- Penderfynu ar bob mater polisi i ategu ei amcanion cynllunio strategol. Gall yr Awdurdod dderbyn cyngor gan ei Bwyllgorau a hefyd gall sefydlu grwpiau cyngori gorchwyl a gorffen i ymchwilio a chynghori ar faterion penodol.
- Penderfynu ar bob Safon Gwasanaeth, ac ar ddyletswyddau statudol yr Awdurdod.
- Rheoli adnoddau'r Awdurdod, h.y. cyllid, staffio ac asedau; ac i gymeradwyo'r gyllideb, ardoll, y taliadau a godir, a'r Cyfrifon Blynyddol.
- Sicrhau bod yr APC yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaethau sy'n effeithio ar ei wasanaethau.
- Penderfynu ar aelodaeth pwyllgorau eraill, grwpiau gorchwyl a gorffen, gweithgorau a grwpiau cyngori, o fewn yr APC, a'u cylch gorchwyl, a chynrychiolaeth yr Awdurdod ar gyff a sefydliadau allanol.
- Penderfynu ar ddirprwyo cyfrifoldebau'r Awdurdod i Bwyllgorau eraill yr Awdurdod, a phan yn briodol, i'r Prif Weithredwr.

Mae'r Awdurdod yn cynnwys pob Aelod, a bydd yn cyfarfod o leiaf 6 gwaith y flwyddyn.

## **PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU**

Y Pwyllgor Rheoli Datblygu sy'n gyfrifol am gyflawni swyddogaethau cynllunio statudol yr Awdurdod mewn perthynas â phenderfynu ar geisiadau cynllunio, apeliadau a materion gorfodaeth, a materion perthynol sy'n ymwneud â datblygu a rheoleiddio defnydd a gweithgareddau.

Cylch gorchwyl y Pwyllgor Rheoli Datblygu yw:

- (a) Ac eithrio lle mae'r pwerau a'r dyletswyddau hynny wedi'u dirprwyo gan yr Awdurdod i un o'i swyddogion a chyn belled â bod y penderfyniadau yn cydymffurfio â'r datganiadau a'r cynlluniau a gymeradwywyd gan yr Awdurdod, bydd y Pwyllgor yn ymarfer holl bwerau a dyletswyddau yr Awdurdod sy'n ymwneud ag ystyried ceisiadau cynllunio, adeilad rhestredig a cheisiadau ardal cadwraeth, cynlluniau hysbysu, gorchmynion cadw coed, rheoli datblygu a gorfodi'r cyfryw reolaeth, a chynlluniau eraill o ymgynghori lle bo'n briodol, gyda'r hawl i weithredu.
- (b) Lle mae Aelodau yn penderfynu gwneud penderfyniad sy'n groes i argymhelliad swyddog, y mae'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cynllunio, neu Arweinydd y Tîm Rheoli Datblygu yn clustnodi bod y penderfyniad yn gyfystyr â gwriad sylweddol oddi wrth gynllun neu bolisi a gymeradwywyd gan yr Awdurdod, neu fel arall bod i'r penderfyniad oblygiadau sylweddol i'r Awdurdod, bydd y penderfyniad yn cael ei ohirio tan y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor.

Os, yn y pen draw, bod penderfyniad y Pwyllgor yn groes i argymhelliad y swyddog, yna cymerir cofnod llawn o resymau'r Aelodau dros wrthod argymhelliad y swyddog, ynghyd â phleidlais wedi'i chofnodi. (*Pwyllgor Polisi, 10/97*)

- (c) Derbyn adroddiadau o bryd i'w gilydd gan y Prif Weithredwr (y Swyddog Parc Cenedlaethol) a swyddogion eraill ar ymarfer unrhyw swyddogaethau sy'n ymwneud â rheoli datblygu a all fod wedi'u dirprwyo iddynt.
- (d) Delio â'r holl faterion sy'n ymwneud â dynodi a gweinyddu Ardaloedd Cadwraeth. (*Pwyllgor Polisi, 10/97*)

### **Pwyllgor Rheoli Datblygu – Gweithdrefnau Archwilio Safle**

- (a) Bydd Swyddog Gwasanaethau Aelodau yr Awdurdod yn anfon gwahoddiad ysgrifenedig at bob aelod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, gan amgáu copi o adroddiad perthnasol y Pwyllgor.
- (b) Bydd y swyddog cynllunio yn cael caniatâd y perchennog i fynd ar y safle, os oes angen, ac yn gwahodd y rhai yr ymgynghorwyd â hwy y

mae eu sylwadau yn berthnasol i'r materion cynllunio dan ystyriaeth (megis Priffyrdd, Asiantaeth yr Amgylchedd).

- (c) Bydd y swyddog cynllunio yn disgrifio'r cais ac yn amlinellu'r polisïau ac ystyriaethau cynllunio perthnasol.
- (d) Bydd y rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn cyflwyno gwybodaeth am faterion ffeithiol perthnasol.
- (e) Gofynnir i'r ymgeisydd a/neu asiant ateb unrhyw gwestiynau a godir gan Aelodau yn y cyfarfod yn unig.
- (f) Bydd y Cadeirydd yn dod â'r archwiliad safle i ben.
- (g) Yn union cyn neu ar ôl yr archwiliad safle ffurfiol fe all hefyd fod yn briodol i'r Aelodau gael golwg ar y safle o fannau amlwg eraill.
- (h) Bydd Rheolau Sefydlog yr Awdurdod hefyd yn berthnasol yn gyffredinol dros faterion megis rheolau trafodaeth.
- (i) Gall y Cadeirydd ohirio'r cyfarfod ar unrhyw adeg, mewn achos o darfu ar ymddygiad trefnus. (APC 07/12/11)

## **PWYLLGOR ARCHWILIO AC ADOLYGU GWASANAETHAU CORFFORAETHOL** (APC 11/06/14)

### Rôl

Ymarfer pwerau a dyletswyddau'r Awdurdod mewn perthynas â'r swyddogaethau canlynol:

1. Fframwaith Rheoleiddio
  - Monitro perfformiad yr Awdurdod yn erbyn Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.
  - Goruchwylio'r gwaith o gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a monitro perfformiad yr Awdurdod yn erbyn y Cynllun Gweithredu cysylltiedig.
  - Monitro perfformiad yr Awdurdod yn erbyn y Llythyr Grant Strategol blynyddol.
  - Monitro perfformiad yn erbyn Safonau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg.
  - Monitro perfformiad yn erbyn y Safonau Gwasanaeth a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod.
2. Gweithgaredd Archwilio
  - Ystyried adroddiadau gan Swyddfa Archwilio Cymru (e.e. yr Adroddiad Gwella Blynyddol, Llythyr Archwilio Blynyddol) a monitro perfformiad yr Awdurdod ar hynny.

- Ystyried adroddiadau gan yr Archwiliad Mewnol ar systemau a mesurau rheolaeth ariannol yr Awdurdod.
3. Cyllid
    - Ystyried adroddiadau chwarterol ar berfformiad ariannol yr Awdurdod a materion cyllidebol.
    - Monitro perfformiad yr Awdurdod mewn perthynas â'i Ddatganiad Cyfrifon Blynyddol.
  4. Adnoddau Dynol
 

Monitro perfformiad yr Awdurdod:

    - yn erbyn ei bolisiau adnoddau dynol a fabwysiadwyd
    - mewn perthynas â lechyd a Diogelwch.
  5. Technoleg Gwybodaeth
    - Monitro perfformiad yr Awdurdod mewn perthynas â'i Strategaeth Technoleg Gwybodaeth.
  6. Rheoli Perfformiad
    - Ystyried adroddiadau chwarterol ar y system rheoli perfformiad *Ffynnon* a monitro perfformiad yr Awdurdod o ran hynny.
    - Adolygu Cofrestr Risg yr Awdurdod o ran Archwilio a Swyddogaethau Corfforaethol a gwneud unrhyw argymhellion i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol i newid lefelau o risg.
    - Ystyried adroddiadau cyfarfodydd y Grŵp Gwelliant Parhaus.
  7. Cyfathrebu
    - Monitro perfformiad yr Awdurdod mewn perthynas â Chyfathrebu a Marchnata.
  8. Materion eraill
    - Adolygu unrhyw fater a gyfeiriwyd ato gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, unrhyw un o'i Bwyllgorau neu gan y Prif Weithredwr.
    - Penderfynu ar ymateb yr Awdurdod ar unrhyw gynigion sy'n effeithio ar y Parc Cenedlaethol neu'r Awdurdod, ei bwerau, dyletswyddau, swyddogaethau a chyfrifoldebau, yn enwedig ond nid yn gyfyngedig, gan y llywodraeth ganolog, rhanbarthol neu leol, awdurdodau cyfagos, partneriaethau a chyrrff allanol eraill lle mae'r cynigion yn berthnasol i swyddogaethau'r Pwyllgor a lle mae'r Prif Weithredwr o'r farn y dylai'r cyfryw ymateb gael ei benderfynu gan y Pwyllgor.

### Dulliau gweithredu

Bydd y Pwyllgor yn cynnwys 9 Aelod o'r Awdurdod (6 CSP a 3 LIC), i gael eu dewis a/neu eu cadarnhau yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol bob blwyddyn.

Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter ac yn cyflwyno adroddiadau i'r Awdurdod ar ei berfformiad.

## Noder

Nid yw ymarfer y cyfryw bwerau a dyletswyddau yn cynnwys y canlynol:

- materion a gedwir yn benodol i gael eu hymarfer gan yr Awdurdod
- materion a ddirprwyir i Bwyllgor arall neu i Is-Bwyllgor
- materion y mae'r Prif Weithredwr o'r farn y dylid eu cyfeirio at gyfarfod o'r Awdurdod i'w penderfynu.

## **PWYLLGOR ADOLYGU GWEITHREDOL** (APC 11/06/14)

### Rôl

1. Monitro perfformiad a gwneud argymhellion i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol mewn perthynas â swyddogaethau:

- Rheoli Datblygu
- Cyfarwyddo
- Cyflawni
- Darganfod

oni bai bod y swyddogaethau hynny eisoes wedi'u cynnwys yn swyddogaethau'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol.

2. Adolygu Cofrestr Risg yr Awdurdod o ran swyddogaethau'r gwasanaethau y cyfeirir atynt yn 1 uchod, a gwneud unrhyw argymhellion i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol i newid lefelau o risg.
3. Adolygu perfformiad ariannol yr Awdurdod mewn perthynas â swyddogaethau'r gwasanaethau y cyfeirir atynt yn 1 uchod.
4. Adolygu unrhyw fater a gyfeiriwyd ato gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, gan unrhyw un o'i Bwyllgorau neu gan y Prif Weithredwr.
5. Penderfynu ar ymateb yr Awdurdod i unrhyw gynigion sy'n effeithio ar y Parc Cenedlaethol neu ar yr Awdurdod, ei bwerau, dyletswyddau, swyddogaethau a chyfrifoldebau, yn enwedig ond nid yn gyfyngedig, gan y llywodraeth ganolog, rhanbarthol neu leol, awdurdodau cyfagos, partneriaethau a chyrff allanol eraill lle mae'r cynigion yn berthnasol i swyddogaethau'r Pwyllgor a lle mae'r Prif Weithredwr o'r farn y dylai'r cyfryw ymateb gael ei benderfynu gan y Pwyllgor.

### Dulliau gweithredu

Bydd y Pwyllgor yn cynnwys 9 Aelod o'r Awdurdod (6 CSP a 3 LIC), i gael eu dewis a/neu eu cadarnhau yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol bob blwyddyn.

Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter ac yn cyflwyno adroddiadau i'r Awdurdod ar ei berfformiad.

## Noder

Nid yw ymarfer y cyfryw bwerau a dyletswyddau yn cynnwys y canlynol:

- materion a gedwir yn benodol i gael eu hymarfer gan yr Awdurdod
- materion a ddirprwyir i Bwyllgor arall neu Is-Bwyllgor
- materion y mae'r Prif Weithredwr o'r farn y dylid eu cyfeirio at gyfarfod o'r Awdurdod i'w penderfynu.

## **PWYLLGOR PERSONNEL**

Y Pwyllgor Personnel sy'n gyfrifol am bob mater sy'n ymwneud â chyflogaeth a'r defnydd a wneir gan yr Awdurdod o'i staff.

Cylch gorchwyl y Pwyllgor Personnel yw:

- (a) gwneud argymhellion i'r Awdurdod ynghylch y polisiau y dylid eu mabwysiadu ynglŷn â recriwtio, cyflogi, diswyddo, amodau gwasanaeth a hyfforddi ei staff.
- (b) cadw golwg ar y sefydliad, y drefniadaeth a chyflogau a thâl staff yr Awdurdod a gwneud argymhellion i'r Awdurdod o bryd i'w gilydd ynglŷn ag unrhyw newidiadau allai fod yn ddymunol.
- (c) sefydlu trefniadau ar gyfer cyd-drafodaethau negodi, a chynnal y cyd-drafodaethau hynny ar ran yr Awdurdod gydag Undebau sy'n cynrychioli buddiannau ei staff drwy'r Fforwm Gweithwyr neu unrhyw drefniadau eraill o negodi.
- (d) gwneud apwyntiadau gan gynnwys cynnal gweithdrefnau recriwtio a dewis yn unol â Strategaeth Adnoddau Dynol yr Awdurdod, a gwneud unrhyw argymhellion ar ymarfer y swyddogaeth benodi all fod yn briodol ac yn berthnasol.

## **FFORWM GWEITHWYR**

### Amcanion

1. Bod yn fecanwaith ar gyfer y staff ar y cyd i ymgysylltu â'r Aelodau a chael cynrychiolaeth ffurfiol.
2. Cynnal cysylltiadau agored a chydweithredol gyda'r gweithwyr o fewn yr Awdurdod.
3. Derbyn eitemau y cyfeirir atynt gan y Grŵp Iechyd a Diogelwch a'r Grŵp Cynrychiolwyr Staff.
4. Gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Personnel ynglŷn â materion cyflogaeth.

5. Ystyried unrhyw fater a gyfeiriwyd ato, neu i gyflawni'r swyddogaethau a neilltuwyd iddo gan yr Awdurdod neu ei Bwyllgorau.

### Aelodaeth

Bydd y Fforwm yn cynnwys 12 aelod. Y cyfansoddiad fydd fel a ganlyn:

Aelodau APCAP	6	(4 Cynghorydd, 2 a benodir gan LIC)
Cynrychiolwyr Staff/Unsain	6	(a swyddog(ion) llawn amser Unsain)

### Cadeirydd

Bydd y Fforwm Gweithwyr yn penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn eu cyfarfod cyntaf bob blwyddyn. Penodir Cadeirydd ac Is Gadeirydd am yn ail rhwng staff ac Aelodau bob blwyddyn.

Bydd unrhyw swydd wag barhaol ar y Fforwm Gweithwyr yn cael ei llenwi wrth i'r swydd ddod yn wag. Caniateir dirprwyon.

Os yw aelod o'r Fforwm Gweithwyr yn peidio bellach â bod yn Aelod neu yn weithiwr yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, bydd yn peidio â bod yn aelod o'r Fforwm Gweithwyr yn syth.

### Cworwm

Cworwm y Fforwm Gweithwyr fydd tri Aelod yr APC (gan gynnwys un Aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru) a thri cynrychiolydd staff/undeb.

### Pleidleisio

Ni fydd pleidlais gan swyddogion undeb llawn-amser, na phleidlais fwrw gan y Cadeirydd.

### Adroddiadau'r Pwyllgor

Fel rheol, bydd trafodion unrhyw gyfarfod o'r Fforwm Gweithwyr yn cael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor Personnel.

### Amseru

Bydd y Fforwm Gweithwyr fel rheol yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn ac o leiaf ddeg diwrnod calendr cyn cyfarfod a drefnwyd o'r Pwyllgor Personnel.

### Gweithdrefn

Fel arfer gwneir penderfyniadau yn dilyn trin a thrafod, ond os bydd angen rhoi'r mater i bleidlais, ni chaiff penderfyniad ei ystyried yn un sydd wedi'i basio os nad yw wedi'i gymeradwyo gan fwyafrif o'r aelodau sy'n bresennol ar y ddwy ochr.

Derbynnir na fydd unrhyw fater disgyblu, gallu neu ddyrchafu unigolion o fewn cwmpas y Fforwm Gweithwyr.

### Eitemau ar yr agenda

Er mwyn cynnal cysylltiadau agored a chydweithredol â'r gweithwyr, caiff staff ac aelodau eu hannog i gyflwyno eitemau gerbron i'w cynnwys ar yr agenda (o leiaf 10 niwrnod cyn dyddiad y cyfarfod).

## **PWYLLGOR CRONFA DATBLYGU CYNALIADWY (SDF)**

Mae'r Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy yn gyfrifol am ystyried pob cais am gymorth/cymorth ariannol mewn cysylltiad â'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy ac am fonitro ac adolygu'r cynllun.

Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yw menter gan Lywodraeth Cymru sydd â'r nod canlynol:

"Datblygu a phrofi ffyrdd, drwy weithio mewn partneriaeth, o gyflawni datblygu cynaliadwy mewn cefn gwlad o harddwch ac amrywiaeth naturiol gwych, lle mae'r nodweddion lleol o ddiwylliant, bywyd gwyllt, tirwedd, defnydd tir a chymuned yn cael eu cadw a'u gwella."

### Cyfansoddiad y Pwyllgor

Bydd aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys chwe aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ("yr Awdurdod") a chwe Aelod Ymgynghorol fydd yn gwasanaethu am gyfnod o bedair blynedd. Bydd yr Aelodau Ymgynghorol yn dod o'r sectorau Cyhoeddus, Busnes/Preifat a Gwirfoddol/Cymunedol. (Byddai Dirprwyon a enwebir ond yn mynychu lle nad yw Aelod Llawn yn gallu bod yn bresennol.)

Bydd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn cael eu hethol o blith y chwe Aelod Awdurdod Parc Cenedlaethol ar y Pwyllgor. Os na all y Cadeirydd fod yn bresennol, bydd y Dirprwy Gadeirydd yn cadeirio. Os na fydd y Cadeirydd na'r Is-Gadeirydd yn bresennol, etholir Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwnnw o blith Aelodau'r Awdurdod fydd yn bresennol.

Bydd Gweinyddwr y Gronfa Datblygu Cynaliadwy a Swyddogion eraill APCAP yn cynghori ac yn gwasanaethu'r Pwyllgor fel y bo'n briodol.

### Cworwm

Cworwm y Pwyllgor SDF fydd dim llai na thri Aelod yr Awdurdod, gydag o leiaf un Aelod a benodwyd gan y Cyngor Sir ac un Aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru yn bresennol.

### Asesu Cais

Bydd y Pwyllgor yn ystyried pob cais yn erbyn meini prawf sy'n seiliedig ar amcanion y cynllun fel y nodir gan Lywodraeth Cymru.

Wrth ystyried ceisiadau, bydd Aelodau'r Awdurdod ar y Pwyllgor yn ystyried unrhyw argymhelliad a wnaed gan yr Aelodau Ymgynghorol, gan fanteisio ar eu meysydd penodol o wybodaeth ac arbenigedd i hyrwyddo datblygu cynaliadwy.



### Proses gwneud penderfyniadau

Bydd yr Aelodau Ymgynghorol yn cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau ac yn gwneud argymhelliad i Aelodau'r Awdurdod sydd â'r grym i benderfynu ym mhob achos:

- (a) a ddylai'r cais gael cymorth grant.
- (b) lefel y grant a roddir.
- (c) unrhyw amodau fydd ynghlwm wrth y grant.

O ran y ceisiadau na fydd yn derbyn grant, bydd y Pwyllgor yn nodi pam nad yw cais yn cael ei ystyried yn addas ar gyfer cael cymorth o dan y Gronfa, a byddant o bosibl yn awgrymu diwygiadau i'r cynnig ac yn gwahodd ail-gyflwyno cais diwygiedig, neu gallant osod cais ar restr "wrth gefn".

### Cyfarfodydd

Cynhelir cyfarfodydd yn ôl y galw.

### Gweithdrefn apelio

Gall ymgeisydd a dramgwyddwyd gyflwyno apêl yn unol â'r weithdrefn apelio fel y nodir yn y ddogfen bolisi ar y gronfa SDF. Gall yr apêl fod ar sail:

- i) hawlio bod y weithdrefn yn anghywir, neu
- ii) hawlio bod y penderfyniad yn anghywir.

## **PWYLLGOR CRAFFU** (APC 13/06/12)

### Rôl

1. Adolygu polisiau presennol a pha mor effeithiol yw gweithredu'r polisiau hynny o ran Strategaeth Gorfforaethol yr Awdurdod.
2. Adolygu polisiau arfaethedig/penderfyniadau a gyfeirir at y Pwyllgor gan y tri Pwyllgor Adolygu (drwy'r Awdurdod Parc Cenedlaethol).
3. Adolygu unrhyw fater arall a gyfeirir at y Pwyllgor gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol.
4. Gwneud argymhellion ar sail tystiolaeth i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol a/neu bartneriaid fel sy'n briodol.

### Dulliau gweithredu

Bydd y Pwyllgor yn cynnwys 9 Aelod o'r Awdurdod, i'w dewis a/neu eu cadarnhau yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol bob blwyddyn.

Bydd y Pwyllgor yn cyfethol ymgynghorwyr allanol i gynorthwyo yn y broses craffu yn ôl yr angen.

Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn ôl yr angen ac yn cyflwyno adroddiadau i'r Awdurdod ar ei berfformiad.

### Noder

Nid yw ymarfer y cyfryw bwerau a dyletswyddau yn cynnwys y canlynol:

- materion a gedwir yn benodol i gael eu hymarfer gan yr Awdurdod, oni bai bod y materion wedi'u dirprwyo i'r Pwyllgor.
- materion a ddirprwyir i Bwyllgor arall neu i Is-Bwyllgor.
- penderfyniadau a wnaed lle na all effaith lawn y penderfyniad hwnnw gael ei werthuso yn gywir hyd yn hyn
- materion y mae'r Prif Weithredwr o'r farn y dylid eu cyfeirio at gyfarfod o'r Awdurdod i'w penderfynu.

## **PWYLLGOR ARGYFWNG**

Mae'r Pwyllgor Argyfwng ar gael i ddelio â materion na ellir, oherwydd y brys, eu cyfeirio drwy'r cylch arferol o gyfarfodydd, na galw cyfarfod arbennig o'r Awdurdod.

Cylch gorchwyl y Pwyllgor Argyfwng yw:

Bydd gan y Pwyllgor awdurdod dirprwyedig i ddelio â phob mater sydd angen sylw yn ddiymdroi a bod cymaint o frys fel nad oes digon o amser i alw cyfarfod o'r Awdurdod na'r Pwyllgor perthnasol i ystyried y mater dan sylw.

## **PWYLLGOR YMCHWILIO A DISGYBLU** *(APC 23/10/13)*

### Cyfansoddiad

5 Aelod, sy'n cynnwys 3 Aelod y Cyngor Sir a 2 Aelod Llywodraeth Cymru.

Ni all yr Aelodau fod yn Aelodau o'r Pwyllgor Cwynion na'r Pwyllgor Apêl.

### Cworwm

3 Aelod (2 Aelod y Cyngor Sir ac 1 Aelod Llywodraeth Cymru)

### Cylch Gwaith

Ystyried a phenderfynu ar y materion sy'n ymwneud â'r materion canlynol yn unol â'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt sy'n dod i'w rhan i'w gwneud o dan y gweithdrefnau hynny, gan gynnwys:

- (a) ystyried unrhyw gamau disgyblu yn erbyn Prif Swyddog (h.y. y Prif Weithredwr, Swyddog Adran 151 neu'r Swyddog Monitro) ar sail

camymddwyn, neu os oes unrhyw gynnig arall i'w diswyddo am unrhyw reswm heblaw dileu swydd, salwch parhaol neu ar ddiwedd contract tymor sefydlog (oni bai bod yr Awdurdod wedi adnewyddu'r contract tymor penodol hwnnw);

- (b) ystyried unrhyw honiad yn erbyn Prif Swyddog yn bersonol, p'un a yw'r mater wedi'i godi gan y gweithiwr neu beidio o dan weithdrefn gwyno yr Awdurdod;
- (c) penodi Person Annibynnol Dynodedig i gynnal yr ymchwiliad cychwynnol;
- (d) derbyn ac ystyried adroddiad y Person Annibynnol Dynodedig gyda golwg ar naill ai:
  - (i) penderfynu a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach (heblaw diswyddo) ac, os felly, pa gamau, neu
  - (ii) argymhell i'r Awdurdod bod y Prif Swyddog dan sylw yn cael ei ddiswyddo.
- (e) ystyried cwyn a godir gan Brif Swyddog sy'n ymwneud ag achos disgyblu yn ei (h)erbyn ef/hi.

## **PWYLLGOR CWYNION** (APC 23/10/13)

### Cyfansoddiad

5 Aelod, sy'n cynnwys 3 Aelod y Cyngor Sir a 2 Aelod Llywodraeth Cymru.

Ni all yr Aelodau fod yn Aelodau o'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu na'r Pwyllgor Apêl.

### Cworwm

3 Aelod (2 Aelod y Cyngor Sir ac 1 Aelod Llywodraeth Cymru)

### Cylch Gwaith

Ystyried a phenderfynu ar y materion sy'n ymwneud â'r materion canlynol yn unol â'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt sy'n dod i'w rhan i'w gwneud o dan y gweithdrefnau hynny, gan gynnwys:

Ystyried:

- (a) apêl gan aelod o staff sydd wedi gwneud cwyn yn erbyn Prif Swyddog, ond nad yw'r gŵyn wedi'i chadarnhau gan y swyddog ymchwilio cychwynnol;
- (b) ystyried unrhyw gamau unioni heb eu datrys a gynigir gan y swyddog ymchwilio cychwynnol yn dilyn cadarnhau cwyn a godwyd yn erbyn Prif Swyddog, neu
- (c) cwyn a godwyd gan Brif Swyddog yn erbyn Aelod.

Penderfynu:

- (a) a ellir cadarnhau'r gŵyn, ac os felly:
  - (i) penderfynu ar y ffordd orau o ddatrys y mater fydd yn bodloni'r gweithiwr sydd wedi gwneud y gŵyn, neu

- (ii) yn achos gweithiwr a dramgwyddwyd, cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu os ystyrir bod y mater o natur mor ddifrifol, neu
  - (iii) yn achos Prif Swyddog a dramgwyddwyd, cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Safonau i'w ystyried.
- (b) a ellir gwrthod y gŵyn.

## **PWYLLGOR APÊL** (APC 23/10/13)

### Cyfansoddiad

5 Aelod, sy'n cynnwys 3 Aelod y Cyngor Sir a 2 Aelod Llywodraeth Cymru.

Ni all yr Aelodau fod yn Aelodau o'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu na'r Pwyllgor Cwynion.

### Cworwm

3 Aelod (2 Aelod y Cyngor Sir ac 1 Aelod Llywodraeth Cymru)

### Cylch Gwaith

Ystyried a phenderfynu ar y materion sy'n ymwneud â'r materion canlynol yn unol â'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt sy'n dod i'w rhan i'w gwneud o dan y gweithdrefnau hynny, gan gynnwys:

Ystyried:

- (a) apêl yn erbyn diswyddo gan aelod o staff heblaw Prif Swyddog, ac
- (b) apêl yn erbyn camau sy'n fyr o ddiswyddo gan Brif Swyddog.

## **PWYLLGOR SAFONAU**

- a) parhau i adolygu Cod yr Awdurdod ar Ymddygiad a gwneud argymhellion i'r Awdurdod ynglŷn ag unrhyw newidiadau y mae'n eu hystyried sy'n ddymunol;
- (b) monitro'r modd y mae Cod yr Awdurdod ar Ymddygiad yn cael ei weithredu;
- (c) rhoi cyngor a hyfforddiant i Aelodau'r Awdurdod ar faterion sy'n ymwneud â'i God Ymddygiad;
- (d) ystyried unrhyw adroddiadau sy'n ymwneud ag Aelodau'r Awdurdod a gyhoeddwyd gan y Swyddog Monitro dan Adran 70(4) neu gan Gomisiynydd Lleol Cymru o dan Adran 71(22)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac unrhyw argymhellion Panel Dyfarnu Cymru ac i gymryd camau ar hynny y mae'n eu hystyried sy'n briodol;
- (e) derbyn a chymryd camau ar unrhyw adroddiadau a gyflwynir i'r Pwyllgor gan Dribiwnlys Achos o dan Adran 79 o'r Ddeddf;

- (f) ystyried a gwneud argymhellion i'r Awdurdod ynglŷn â'r camau ddylid eu cymryd ar unrhyw adroddiad gan Dribiwnlys Achos o dan Adran 80 o'r Ddeddf;
- (g) ystyried ceisiadau gan Aelodau'r Awdurdod am ollyngiadau o dan Reoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001,
- (h) monitro gweithdrefn gwyno yr Awdurdod mewn perthynas â honiadau o gamweinyddu, a gwneud argymhellion ar hynny (*APC 17/01/07*) a
- (i) gwneud argymhellion i'r Awdurdod o bryd i'w gilydd ynglŷn ag unrhyw ychwanegiadau neu ddiwygiadau arfaethedig i'r Cylch Gorchwyl hwn.

## **PWYLLGOR CYNORTHWYO A DATBLYGU AELODAU (*APC 30/01/19*)**

### Cyfansoddiad

9 Aelod, sy'n cynnwys 6 Aelod y Cyngor Sir a 3 Aelod Llywodraeth Cymru.

Bydd y Pwyllgor o bosibl, o bryd i'w gilydd a heb osod cynsail, yn gwahodd Aelodau eraill i fynychu cyfarfod mewn perthynas â maes penodol o arbenigedd.

### Cworwm

3 Aelod, i gynnwys o leiaf un Aelod y Cyngor Sir ac un Aelod Llywodraeth Cymru.

### Cylch Gwaith

1. Goruchwylio'r gwaith o gyflwyno cymorth a datblygiad i Aelodau'r Awdurdod.
2. Goruchwylio'r gwaith o gyflwyno'r Strategaeth Datblygu Aelodau, gan gynnwys sefydlu Aelodau a'r Cynllun Hyfforddiant.
3. Datblygu cais am Siarter Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau ac argymhell y cais i'r Awdurdod cyn ei gyflwyno i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
4. Adolygu'r cymorth sydd ar gael i'r Aelodau a gwneud argymhellion i'r Awdurdod yn ôl yr angen.
5. Ystyried unrhyw fater arall y mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ei gyfeirio at sylw'r Pwyllgor.

### Dull gweithredu

Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter ac yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.

Etholir Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yn y cyfarfod cyntaf yn dilyn Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol yr Awdurdod bob blwyddyn.

## **GRWPIAU GORCHWYL A GORFFEN STRATEGAETH AELODAU** (APC 06/05/15)

### Rôl/diben

Yr Awdurdod sydd i benderfynu ar rôl y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

### Aelodaeth

I gynnwys:

6 Aelod o'r Awdurdod, ar gymhareb 2:1 o Aelodau Cyngor Sir Penfro (CSP) ac Aelodau Llywodraeth Cymru (LIC).

Y Prif Weithredwr i enwebu swyddogion perthnasol.

Yr Aelodau i benderfynu ar Gadeiryddiaeth yn y cyfarfod agoriadol.

Yr aelodaeth i barhau tan bod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi cwblhau ei dasg.

### Cworwm

I gynnwys o leiaf dau Aelod CSP ac un Aelod LIC.

### Atebolrwydd

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o natur ymgynghorol a bydd yn cyflwyno adroddiadau ar ei ganfyddiadau i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol erbyn y dyddiad terfyn a bennwyd.

### Dulliau gweithredu

Trefnir cyfarfodydd yn ôl yr angen.

*Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2008*

*Diwygiwyd: Rhagfyr 2011*

*Diwygiwyd Cylch Gorchwyl Cronfa Datblygu Cynaliadwy: Mawrth 2012*

*Ychwanegwyd Cylch Gorchwyl Pwyllgor Craffu: Mehefin 2012*

*Ychwanegwyd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Apeliadau: Hydref 2013*

*Ychwanegwyd Cylch Gorchwyl y Grwpiau Gorchwyl a Gorffen Strategaeth Aelodau: Mai 2015*

*Pwyllgor Cynorthwyo a Datblygu Aelodau: Ionawr 2019*